GORFFENNAF 2025

# MIN Y TRAETH

BWLETIN YSGOL EIFIONYDD




## GAIR GAN Y PENNAETH

**Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,**

Rwy'n hynod falch o rannu rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn Ysgol Eifionydd. Mae disgyblion wedi dangos ymroddiad, creadigrwydd ac ysbryd cymunedol ardderchog, ac rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus ein rhieni. Eleni, fe wnaethom ailgyflwyno'r Eisteddfod gyda brwdfrydedd Blwyddyn 7, sefydlu nifer o gynghorau ysgol, ac am y tro cyntaf ers degawdau, penodi Prif Swyddogion ymhlith disgyblion Blwyddyn 11 i arwain a chynrychioli'n gwerthoedd. Rydym yn falch o ganmoliaeth gan yr Awdurdod Lleol am ddatblygiad ein Cwricwlwm i Gymru ac yn edrych ymlaen at gyflwyno'r cyrsiau TGAU newydd.

Diolch o galon i **Mrs Sian Williams** a **Mrs Mary Baillot** sy'n gadael eleni – a chroeso cynnes i **Miss Samantha Tipton** a **Miss Nia Evans** wrth iddynt gamu i'w rolau newydd. Diolch i bawb am flwyddyn wych – rydym yn edrych ymlaen at y cam nesaf gyda balchder a gobaith.

*Mr Dewi Rhys Bowen*

---

ICYFATHREBU

IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

### An Inspector Calls

Cafodd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 gyfle gwerthfawr i fynychu perfformiad o'r ddrama An Inspector Calls yn **Venue Cymru**, Llandudno, ar ddydd Iau, 15 Mai 2025. Gan fod y ddrama'n rhan allweddol o'r cwrs TGAU Saesneg Llenyddiaeth, bu'r profiad yn un gwerthfawr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r testun. Mwynhaodd y disgyblion y perfformiad yn fawr, a dylid eu canmol am eu hymddygiad a'u haeddfedrwydd trwy gydol y daith.




### Cydweithio Creadigol

Mae'r adran Saesneg a'r adran Gelf wedi bod yn cydweithio'n greadigol gyda dosbarth 7T i greu delweddau clai trawiadol o gymeriadau o'n nofel ddosbarth. Mae'r prosiect wedi meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r testun, gan gyfuno sgiliau llenyddol ac artistig mewn ffordd ysbrydoledig.




### Ymweliadau ac Ysbrydoliaeth Lenyddol i Ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9

Ar ddydd Gwener, 11 Gorffennaf, aeth bws llawn o ddisgyblion Blwyddyn 8 ar ymweliad i'r **Ysgwrn** fel rhan o'u hastudiaeth o nofel ar thema'r rhyfel yn ystod yr hanner tymor olaf. Cafodd y disgyblion gyfle unigryw i gymryd rhan mewn gweithdy ysbrydoledig gyda'r awdures **Haf Llewelyn**, yn ogystal ag archwilio cartref Hedd Wyn a'r amgueddfa, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o hanes a llenyddiaeth Gymreig.

Yn ogystal, cafodd disgyblion Set 2 a Set 3 Blwyddyn 9, sy'n astudio'r nofel Jac ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth, weithdy arbennig gyda **Guto Dafydd** – awdur y nofel. Cynhaliwyd y sesiwn yn ystod gwers Gymraeg ar yr un diwrnod, a bu'n gyfle gwerthfawr i drafod y testun yn fanwl gyda'r awdur ei hun. Diolch o galon i Guto am rannu ei amser a'i fewnwelediad, roedd y disgyblion wrth eu boddau.









**Dyma Y Cyngor Cymreictod gyda'r Wobr Arian.**

Cyngor Tref Porthmadog

**Neges Heddwch ac Ewyllys Dda 2025: Ysgol Eifionydd yn Myfyrio ar Dlodi**

I gefnogi **Neges Heddwch ac Ewyllys Dda yr Urdd** eleni, bu disgyblion Ysgol Eifionydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn seiliedig ar y thema Tlodi. Dyma rai o'r gweithgareddau a wnaeth y disgyblion gymryd rhan ynddynt:

- Blasu a chymharu prydau bwyd parod a ffres, gan drafod: ydy'r brandiau drud yn cynnig blas gwell bob tro?
- Trafodaeth fywiog ar anghenion pobl ifanc yn y gymuned – beth sydd wir ei angen ar blant a phobl ifanc i ffynnu?
- Cefnogi ac ymroi i elusen **Achub y Plant**, drwy gyfrannu ac annog ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu teuluoedd ledled y byd.

Mae'n braf gweld disgyblion yn cymryd rhan mor frwd mewn trafodaethau a gweithgareddau sy'n meithrin empathi, dealltwriaeth a pharch at eraill.



I FEDDWL

Y DYNIAETHAU

Urdd

**Ymarfer Cymraeg yn y Ffordd Orau Bosib!**

Diolch o galon i **Cadwaladers**, Porthmadog am ein croesawu'n gynnes i'r siop hufen iâ! Cafodd disgyblion Blwyddyn 8 Cymraeg Ail Iaith gyfle gwych i ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destun naturiol wrth archebu eu hufen iâ ac ar ddiwrnod heulog hefyd! Roedd y profiad yn ffordd wych o hybu hyder a sgiliau cyfathrebu, ac wrth gwrs, pawb yn mwynhau'r ar y diwedd!

**Dathlu Llwyddiant yn Ysgol Eifionydd!**

Mae Ysgol Eifionydd yn falch iawn o rannu'r newyddion bod yr ysgol wedi derbyn **Achrediad Arian y Siarter Iaith** , gan ddod yn ysgol uwchradd gyntaf yng Ngwynedd i dderbyn y wobr nodedig hon. Diolch o galon i'r dilyswyr a ymwelodd â'r ysgol i gael blas ar yr holl waith gwych sy'n digwydd yma i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. Diolch hefyd i'r athrawon ymroddgar a'r Cyngor Cymreictod am eu brwdfrydedd, creadigrwydd a'u gwaith parhaus. I ddathlu'r achlysur, cafodd yr ysgol brynhawn o hwyl yng nghwmni'r band poblogaidd **Bwncath**, diolch am greu awyrgylch arbennig! Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Gyngor Tref Porthmadog am eu nawdd hael a'u cefnogaeth barhaus. Llongyfarchiadau i bawb a gyfrannodd at y llwyddiant – **Ymlaen â'r Gymraeg!**





**Llongyfarchiadau i Berfformwyr Talentog Ysgol Eifionydd!**

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion isod am gymryd rhan yn sioe gerdd **Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn**- 'Croeso i Baradwys' gan **Hywel Pitts**, a berfformiwyd yn Galeri Caernarfon. Roedd y perfformiad yn llawn egni, talent ac angerdd, ac yn ganlyniad i fisoedd o waith caled a pharatoi. Roedd y sioe yn brofiad gwirioneddol werth ei gweld, ac yn un bythgofiadwy i bawb a gymerodd ran. Da iawn chi genod – rydyn ni'n hynod falch ohonoch! 🌟 **Beca, Tesni, Gwenllian, Ffion, Erain Jên, Swyn, Elin, Elain, a Lili-Mai** 🌟

CREU

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Llongyfarchiadau cynnes i bawb a gymerodd ran yng nghystadlaethau **Eisteddfod yr Urdd** eleni – mae eich ymdrech a'ch brwdfrydedd yn werth eu canmol. Llongyfarchiadau mawr hefyd i **Erain** (Blwyddyn 7) am gyrraedd y rownd derfynol Unawd Alaw Werin yn **Eisteddfod yr Urdd** ym Mharc Margam. Da iawn hefyd i **Deio Rhys** (Blwyddyn 10) am ennill ail le yng nghystadleuaeth Unawd Tenor a Bas yn yr Eisteddfod Rhanbarth, ac i **Gwenllian** (Blwyddyn 9) am ddod yn ail agos iawn yng nghystadleuaeth Perfformiad Theatrig. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiannau!









**Celfyddydau Mynegiannol – Creadigrwydd ar Waith yn Ysgol Eifionydd**
Mae'r tymor diwethaf wedi bod yn un llawn gweithgarwch, mynegiant creadigol a chyfleoedd ysbrydoledig i ddisgyblion yn y gyfadran *i*-Greu:

**Celf a Dylunio**

- Taith ysbrydoledig i **Portmeirion** gyda disgyblion Blwyddyn 10 i gasglu ymchwil ar gyfer eu gwaith cwrs.
- Disgyblion Blwyddyn 7 wedi bod yn luniadu tirluniau lleol allan yn yr awyr agored, gan ddatblygu eu sgiliau arsylwi a throsglwyddo.
- Creu murlun arbennig ar gyfer ystafell ddosbarth Gwyddoniaeth Miss Rhys – dan arweiniad y **Cyngor Creadigol**, gyda chymorth disgyblion brwdfrydig.
- **Clwb Crefft er Lles Eifionydd** yn parhau i gynnal sesiynau ymarferol llawn dychymyg.

**Cerddoriaeth a Theatr**

- Gweithdai ysbrydoledig gan **Ed Holden** a **Mei Emrys** (Sgorio), fel rhan o brosiect gan **Menter Iaith Gwynedd**, wedi ysbrydoli cerddoriaeth a mynegiant newydd.
- Gwasanaeth ysgol gan ddisgyblion yn cyflwyno hanes a digwyddiadau Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

**Llwyddiannau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i **Cora, Rosalie a Swyn** o flwyddyn 7 ac **Awel** o flwyddyn 9 am eu llwyddiannau mewn cystadlaethau tecstilau creadigol, darlunio a ffotograffiaeth yn **Eisteddfod Rhanbarth Eryri**.

**Eisteddfod Ysgol Eifionydd 2025**
Llongyfarchiadau enfawr i **Hebog**🟡 – enillwyr Eisteddfod eleni!
Cafodd Blwyddyn 7 ddiwrnod llawn hwyl, ysbryd cystadleuol a thalent wych wrth gystadlu yn **Eisteddfod Ysgol Eifionydd 2025**. Roedd y safon yn uchel a'r ysbryd yn bositif drwy'r dydd, gyda phawb yn rhoi o'u gorau glas a mwynhau'n fawr.
Diolch o galon i **Cedron Sion** am feirniadu gyda chefnogaeth **Mrs Miriam Amlyn** yn ystod y prynhawn a diolch i **Mrs Glenda Murray** am arwain.
Edrychwn ymlaen yn barod at Eisteddfod 2026: **Ymlaen â'r traddodiad!**




**Ffrwyth Llafur diwrnod Pontio Gorffennaf 2024: Llwybr Cadfan**
Llongyfarchiadau mawr i griw talentog o Flwyddyn 7 a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth dylunio stampiau ar gyfer llwybr Pererindod Cadfan. Roedd y dyluniadau'n gyfuniad o syniadau creadigol unigol a chyfraniadau cydweithredol o safon uchel. Stamp Cricieth: **Lydia** a **Summer**, Stamp Porthmadog: **Mabon**, **Scarlett**, **Luca** ac **Olwen**, Stamp Llanystumdwy: **Sofia** ac **Arabella**. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant ac yn edmygu'r gwaith manwl a chreadigrwydd a ddangoswyd. Da iawn chi i gyd!





**Dylunio a Thechnoleg – Creadigrwydd, Sgiliau a Chydweithio**
Bu'r adran Dylunio a Thechnoleg yn brysur yn ddiweddar gyda nifer o brosiectau cyffrous, gan ddatblygu sgiliau ymarferol a chreadigol ymysg disgyblion ar draws y grwpiau blwyddyn:

- Cydweithio gyda **Mentor Môn** – **Ffiws** Porthmadog i gynllunio a chreu dyluniadau brodwaith personol ar gyfer ffedogau wedi'u gwneud gan y disgyblion eu hunain – cyfle i gyfuno dylunio digidol â sgiliau ymarferol.
- Gweithdy cigydd gyda **Iain Miles** o gwmni **Castell Howell** i ddisgyblion Bwyd a Maeth – profiad ymarferol gwerthfawr yn dysgu sgiliau torri a pharatoi cig yn ddiogel ac yn broffesiynol.
- Disgyblion Blwyddyn 9 yn defnyddio eu sgiliau dylunio i greu tlysau a medalau ar gyfer **Eisteddfod yr ysgol**. Dyma **Tomos** a **Dyfan** yn arddangos eu dyluniadau.

Mae'n wych gweld disgyblion yn cymryd rhan mor frwdfrydig mewn gweithgareddau ystyrlon sy'n datblygu sgiliau bywyd, creadigrwydd ac entrepreneuriaeth.
















**Taith Addysgiadol i Orsaf Bŵer Trawsfynydd**
Cafodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 10 gyfle unigryw i ymweld â'r **orsaf bŵer niwclear** wedi'i dadgomisiynu yn Nhrawsfynydd. Yn ystod y daith, dysgodd y disgyblion am hanes y safle, sut y gweithredodd yn y gorffennol, a'r prosesau cymhleth sy'n ymwneud â'i wneud yn ddiogel ar gyfer y dyfodol. Diolch o galon i'r staff am eu croeso cynnes a'u harbenigedd, roedd yn brofiad gwerthfawr, addysgiadol ac ysbrydoledig i bawb a gymerodd ran.



**Llongyfarchiadau i Matthew Washington!**
Llongyfarchiadau mawr i **Matthew Washington**, a ddaeth i'r brig fel un o'r 12 disgybl gorau yng nghystadleuaeth Fathemategol y **Gymdeithas Wyddonol** – allan o dros 1000 o gyfranogwyr o ysgolion ledled Cymru! Cafodd Matthew ei wobrwyo yn ystod **Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam** dros y Sulgwyn, ac mae'r gamp hon yn dystiolaeth o'i allu academaidd rhagorol a'i ymdrech barhaus. Da iawn ti, Matthew!



**Llwyddiant ar Gwrs Ffenics**
Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a fynychodd y **cwrs Ffenics** yn **Nghorsaf Dân Blaenau Ffestiniog** yn ddiweddar. Drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ymarferol a heriol, bu'r disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm a pharch. Roedd y cwrs yn brofiad gwerthfawr a chyfle i ddatblygu sgiliau personol mewn cyd-destun newydd a phositif. Da iawn i bawb a gymerodd ran!



**Gweithio gyda'r Gymuned: Criw Blwyddyn 8 yn Taclo Sbwriel**
Treuliodd criw ymroddgar o Flwyddyn 8 fore prysur ar ddydd Mercher, 2 Gorffennaf, yn gweithio gyda **Tîm Taclus**, **yr Heddlu** ac y C**ynghorydd Nia Jeffreys** i daclo sbwriel o amgylch Porthmadog. Bu'r disgyblion yn casglu sbwriel ac yn helpu i dacluso ardaloedd allweddol o'r dref, gan wneud gwir wahaniaeth y gellid ei weld ar unwaith. Da iawn i bawb a gymerodd ran, rydych wedi dangos balchder yn eich cymuned ac wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr.

**Gweithdy Dringo ac Antur Blwyddyn 8**
Fel rhan o'u hastudiaeth o'r thema Antur a Hamdden, cafodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 8 gyflwyniad ysbrydoledig gan **Miss Mirain Rhys**, athrawes Wyddoniaeth, am ei phrofiadau personol o ddringo a gweithgareddau awyr agored. Cysylltwyd y sesiwn â'u gwaith ar Eric Jones, y dringwr o Dremadog. Yn ogystal, fel rhan o weithgareddau iechyd a lles, pleidleisiodd rhai disgyblion Blwyddyn 8 i gymryd rhan mewn taith gerdded i fyny'r Wyddfa, yng nghwmni **Miss Rhys**, **Mrs Bethan Mortimer** a **Miss Nyfain Wynn**. Arbennig!

**Llwyddiannau Chwaraeon Ysgol Eifionydd**
Mae disgyblion Ysgol Eifionydd wedi bod yn serennu mewn amrywiaeth o chwaraeon yn ddiweddar:

⚽ **Blwyddyn 7:** Bu criw o ferched yn cymryd rhan yn Dwrnament Pêl-droed Cwpan Gwynedd a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Hugh Owen ym mis Mehefin. Braf oedd gweld cymaint o ferched yn cymryd rhan – da iawn chi ferched!

🏐 **Scarlett Harvey** (Blwyddyn 7) – Llongyfarchiadau mawr ar gynrychioli Academi Pêl-Rwyd Dan 13 Gogledd Gorllewin Cymru yng Nghaerdydd. Profiad arbennig!

⚽ **Callum Smith** (Blwyddyn 8 ) – Da iawn ar chwarae i dîm Wrecsam yn erbyn Bolton Wanderers, gan helpu'r tîm i ennill 3–1. Gwaith gwych Callum!

⚽ **Maddison Connor** (Blwyddyn 11) – Llongyfarchiadau ar gael ei dewis ar gyfer treialon gyda chlwb Everton yn ddiweddar – llwyddiant rhagorol.

🏉 **Celt Carr** (Blwyddyn 10) – Llongyfarchiadau ar gael treialon gyda RGC , pob lwc yn y cam nesaf!

Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiannau – daliwch ati i ddilyn eich angerdd a'ch uchelgais!





















**Canlyniadau Mabolgampau Ysgol Eifionydd 2025**

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran, yn enwedig i'n pencampwyr!

**Safleoedd y Tîmau**

1af – **Hebog** 🟡 – 622 pwynt
2il – **Dwyfor** 🔴 – 508 pwynt
3ydd – **Glaslyn** 🟢 – 482 pwynt

**Victor Ludorum**

Bl. 7 – **Danial Morgan**
Bl. 8 – **Callum Smith**
Bl. 9 – **Lucas Smith**
Bl. 10 – **Alfie Wood**

**Victrix Ludorum**

Bl. 7 – **Chloe Jones** a **Erain Jên**
Bl. 8 – **Lisa Williams**
Bl. 9 – **Gwenllian Thomas**
Bl. 10 – **Tesni Rhys**

**Llongyfarchiadau i Dîm Hebog 🟡 – Pencampwyr y Mabolgampau 2025!**

Cafwyd diwrnod gwych o gystadlu, gyda disgyblion yn dangos ysbryd tîm, brwdfrydedd a dawn athletaidd. Da iawn bawb a gymerodd ran! Capteiniaid y tŷ buddugol o Flwyddyn 10 oedd **Alfie Wood** a **Tesni Rhys** – llongyfarchiadau arbennig iddyn nhw am eu harweinyddiaeth.






**Taith Wobrwyo**

Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a gafodd wahoddiad i Cineworld am eu hymdrechion eithriadol drwy gydol y flwyddyn. Rydyn ni'n falch iawn ohonoch!



**Noson Gofiadwy i Ddisgyblion Blwyddyn 11 – Prom Ysgol Eifionydd 2025**

Cynhaliwyd Prom a phrynhawn gwobrwyo cofiadwy iawn yn ddiweddar yng **Nghlwb Golff Porthmadog**, gyda disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Eifionydd yn serennu o'r dechrau i'r diwedd. Roedd yr achlysur yn llawn hwyl, dathlu a chyfeillgarwch – yn adlewyrchu ysbryd cryf a chymunedol y flwyddyn. Dechreuodd y noson gyda seremoni wobrwyo ffurfiol, yn dathlu llwyddiannau academaidd ac ymroddiad eithriadol y disgyblion drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Dilynwyd hyn gan wobrau anffurfiol a doniol, gan gynnwys coroni Brenin a Brenhines y Prom mewn awyrgylch llawn chwerthin a llongyfarchiadau. Ar ôl mwynhau pryd blasus o sglodion a chŵn poeth, trodd pawb at y disgo bywiog i orffen y noson ar nodyn uchel. Roedd hefyd arddangosfa drawiadol o gerbydau yn cludo'r disgyblion i'r clwb – o hen geir chwaraeon a thractor i gar NYPD o Efrog Newydd! Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y digwyddiad, gan gynnwys: **Mr a Mrs Whitehurst**, **The Factory Shop**, **Dukes Taxis**, **Siop Pikes**, Porthmadog, **Clwb Golff** Porthmadog, Spar Porthmadog a **holl aelodau staff Ysgol Eifionydd** a roddodd o'u hamser a'u hegni. Llongyfarchiadau mawr unwaith eto i ddisgyblion Blwyddyn 11, rydym yn hynod falch ohonoch ac yn dymuno'r gorau i chi ar gyfer y dyfodol.



**Adolygiad o'n Polisi Ymddygiad**
Fel rhan o'n hymrwymiad i greu amgylchedd dysgu diogel, cadarnhaol a chefnogol, rydym wrthi'n adolygu ein **Polisi Ymddygiad**. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y polisi yn adlewyrchu anghenion ein disgyblion, staff a'n cymuned ehangach, ac yn cefnogi ein gwerthoedd fel ysgol. Rydym yn rhagweld dull cadarn ond cefnogol o reoli ymddygiad, sy'n canolbwyntio ar barch, cyfrifoldeb a dysgu o gamgymeriadau. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y materion hyn – os nad ydych eisoes wedi cwblhau'r holiadur, mae croeso mawr i chi wneud hynny.




**Diwrnodau Pontio Ysgol Eifionydd**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i fynychu Eifionydd ar gyfer eu diwrnodau pontio ddiwedd y tymor. Cawsant amrywiaeth o brofiadau cyffrous, gan gynnwys blasu gwersi mewn pynciau newydd a chyfle i archwilio'r ysgol a dod i adnabod y drefn newydd. Bu iddynt hefyd fwynhau cinio ysgol, cwrdd â staff allweddol a chreu cyfeillion newydd . Roedd cyfarfod ag aelodau o dîm Bydis, fel **Jack** ac **Alfie** o Flwyddyn 9 – yn ffordd wych o ddysgu mwy am fywyd ysgol uwchradd a chael eu rhoi ar ben ffordd ar gyfer mis Medi. Pob lwc i bawb wrth ddechrau ar eu taith ym Mlwyddyn 7, rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu'n ôl fel rhan swyddogol o deulu Eifionydd!





**Presenoldeb**
Rydym yn annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i wella lefelau presenoldeb a phrydlondeb, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad parhaus â hyn. **Targed presenoldeb yr ysgol yw 93%.**

Gwerthfawrogwn pe gallech drefnu apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol y tu allan i oriau ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid darparu llythyr neu gerdyn apwyntiad i'r ysgol cyn diwrnod yr apwyntiad. Heb y dystiolaeth hon, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel un anawdurdodedig.

Os bydd yr ysgol yn pryderu am lefelau presenoldeb oherwydd nifer uchel o absenoldebau salwch, gallwn ofyn am dystiolaeth feddygol sy'n dangos bod triniaeth angenrheidiol yn cael ei derbyn.

Ni ddylai rhieni na gwarcheidwaid drefnu gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. **Ni fydd yr ysgol yn awdurdodi gwyliau oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli.**




**Diolch o Galon i Ddwy Athrawes Arbennig**
Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, hoffem estyn ein diolch mwyaf diffuant i ddwy athrawes arbennig iawn sy'n gadael Ysgol Eifionydd eleni.

**Mrs Sian Williams**, athrawes Hanes, fu'n aelod allweddol o'r adran Ddyniaethau am flynyddoedd maith. Mae ei hangerdd dros y pwnc a'i hymrwymiad i'w disgyblion wedi gadael argraff barhaol ar genedlaethau o ddysgwyr.

**Mrs Mary Baillot**, Pennaeth yr Adran Fathemateg, sydd wedi bod gyda ni ers 7 mlynedd, wedi ysbrydoli mathemategwyr brwd gyda'i gwybodaeth, ei dyfalbarhad a'i chefnogaeth.

Diolch o galon i'r ddwy am eu gwaith caled, eu proffesiynoldeb ac am fod yn rhan mor werthfawr o deulu Eifionydd. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant i chi yn eich camau nesaf.

**Haf Hapus i Bawb!**
Diolch i bawb am flwyddyn wych yn Ysgol Eifionydd.
Mwynhewch wyliau'r haf – cewch seibiant haeddiannol ac edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi!

## Dyddiadau Pwysig
Ailagor i Ddisgyblion: Dydd Mawrth, 2il o Fedi, 8:55yb
Blwyddyn 10 – Canlyniadau: Dydd Mercher, 21ain o Awst, 9:30yb